



Tachwedd 2013

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i'r holl bysgotwyr sydd wedi'n cynorthwyo gyda'r prosiect hyd yn hyn. Bu'ch cymorth i gasglu'r data gwyddonol hwn yn amhrisiadwy.

Daliwch ati i wirio'n gwefan am ein hadroddiadau diweddaraf a'r holl gyhoeddiadau a chyflwyniadau rydym wedi eu cwblhau hyd yn hyn.

Ewch i: <http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk> a dewiswch 'Welsh fisheries' – 'Reports'. (Neu cysylltwch â'n hadroddiadau diweddaraf drwy ein tudalen gartref (de uchaf). Mae'n gwefan yn cynnwys lluniau a fideos o'n gwaith, ac ymunwch â'n tudalen Facebook am ragor:

<https://www.facebook.com/fisheriesconservation>. Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter:

@Fisheriesbangor.

Holiadur pysgotwyr

Mae holiadur gwybodaeth y pysgotwyr yn mynd rhagddo gyda 20 holiadur wedi'u cwblhau; 5 yng ngogledd Cymru, 7 yng nghanolbarth Cymru, ac 8 yn ne Cymru. Rydym yn ceisio amserlennu cyfweiliadau â physgotwyr, felly os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â Julia (i.pantin@bangor.ac.uk). Gallwch gofrestru ar ein gwefan (cliciwch ar ddolen 'Get involved' ar <http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk>)

Mae'r holiadur hwn o bwysigrwydd hanfodol gan y bydd yn canfod yr ardaloedd hynny o'r arfordir sydd bwysicaf i bysgotwyr, bydd yn darparu portffolio o dystiolaeth annibynnol i'r diwydiant pysgota i'w ddefnyddio wrth fynd rhagddo, a bydd yn hysbysu ein dealltwriaeth o fioleg y rhywogaethau masnachol pwysicaf yng Nghymru.

Cyfweiliadau Economaidd

Mae'r cyfweiliadau economaidd hefyd ar eu ffordd gyda 44 wedi'u cwblhau hyd yn hyn o gwmpas Cymru. Diolch i'r pysgotwyr hynny sydd wedi rhoi o'u hamser i helpu. Mae'r cyfweiliadau hyn yn hanfodol i asesu perfformiad economaidd y pysgodfeydd gyda'r glannau o amgylch Cymru a byddant yn cael eu perthnasu i'r pysgodfeydd cyfredol (wedi eu canfod o holiadur y pysgotwyr) i amcangyfrif y canlyniadau economaidd posibl o wahanol fesuriadau rheolaeth. Diolch i'r holl bysgotwyr fu'n rhan o'r ymgyrch. Mae angen mwy o gyfweiliadau i gael gwell pictiwr o berfformiad y gweithgaredd. **Dewch i gymryd rhan, os gwelwch yn dda, a chysylltwch â: g.cambie@bangor.ac.uk, 01248 382615.**

Cofiwch fod yr arolwg hwn yn bwysig am y bydd yn mynd i'r afael â'r tanbrizio cyfredol o werth pysgodfeydd masnachol i economi Cymru ac felly yn codi materion pysgodfeydd yn uwch ar yr agenda.



Cramenogion

Arolwg o gramenogion ifanc



Cranc coch ifanc (*Cancer pagurus*), a chimwch (*Homarus gammarus*) wedi eu dal yn ein cewyll arbrofol.

Daeth y prosiect crancod ifanc i ben tan yr haf nesaf. Cawsom rhai dyddiau cyffrous ar y môr dros yr haf. Mae'r data i gyd a'r ffilm fideo ar hyn o bryd yn cael eu dadansoddi a dylai fod ar gael fel adroddiad ar y wefan yn y dyfodol agos.

Natalie Hold: n.hold@bangor.ac.uk (07903 762466)

Jodie Haig: j.haig@bangor.ac.uk (07593 635348)

Cranc coch



Cranc coch ifanc, *Cancer pagurus*

Mae ymchwil "Maint pan mae'n Aeddfed" yn cael ei ddal yn ôl nes i ni gael goddefeb wyddonol i gasglu crancod coch sydd heb ddatblygu'n llawn. Byddwn yn penderfynu os oes gwahaniaethau rhanbarthol mewn maint pan maent yn aeddfed drwy asesu cyflwr atgenhedlu'r gwrywod a'r menywod o ogledd, canolbarth a de Cymru.

Ymchwil atgenhedlu cimychiaid

Rydym yn casglu data ar eu maint pan maent yn aeddfed, a ffrwythlondeb a llwyddiant atgenhedlu cimychiaid. Edrychwch ar y ddogfen sydd ynghlwm wrth yr e-bost hwn neu ewch i'n gwefan i ganfod ein rhaglen ymchwil gyfan.

Gorgimychiaid



Rydym yn croesawu'n ffurfiol Kayla Williams a Niamh Ryan i'n tîm. Byddant yn troi eu llygaid profiadol ar y gorgimychiaid wrth iddynt ddechrau gweithio ar "Reolaeth cynaliadwy pysgodfeydd gorgimychiaid Bae Ceredigion" gyda Chymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion. Mae'r prosiect hwn (ochr yn ochr â'n un ni) yn canolbwyntio ar ddata llinell sylfaen sydd ei angen dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Strategaeth Morol newydd.


Rydym yn dal i ymgysylltu â physgotwyr gorgimychiaid o gwmpas Cymru. Pe byddech yn dymuno fod yn rhan o'r prosiect **cysylltwch â Dr Jodie Haig** j.haig@bangor.ac.uk. Am ychydig iawn o gyfraniad gallwch gyfrannu rhai samplau gwyddonol hanfodol i astudiaeth Cymru o gorgimychiaid.

Tagio cimychiaid



Hyd yn hyn, mae bron i 1000 o gimychiaid wedi'u tagio drwy Gymru, gydag ymdrech fawr yn digwydd oddi ar bendraw Penrhyn Llŷn. Mae hyd cramen y cimwch sy'n cael ei ail ddal yn amrywio o 66mm i 105mm, sy'n awgrymu fod y cimychiaid mwyaf yn llai tebyg o gael eu gael eu hail ddal. Mae plotio cyfesurynnau GPS cimychiaid sydd wedi eu tagio yn erbyn cyfesurynnau System Leoli Fydeang (GPS) o ble y cawsant eu hail ddal yn dangos fod y mwyafrif o gimychiaid wedi symud llai na 200m. Mae'r data rhagarweiniol hyn yn cytuno ag astudiaethau blaenorol am symudiadau y cimwch Ewropeidd, gyda'r rhan fwyaf o'r cimychiaid yn aros yn agos i'r lleoliad lle cawsant eu dal am y tro

cyntaf, tra mae ychydig o gimychiaid yn mentro ymhellach. Mae adroddiad rhagarweiniol ar gael nawr (gwelwch ein gwefan a'r atodiad e-bost).



Histogram yn dangos y pellter rhwng y lleoliad dal cychwynnol a'r lleoliad ail ddal



Cregyn bylchog

Prawf dwyster pysgota

Mae'r asesiad priodol ar gyfer astudiaeth dwyster pysgota cregyn bylchog ym Mae Ceredigion wedi dechrau gyda CNC a Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar y ddogfen tendro i ddechrau proses tendro i ddewis y cychod pysgota a fydd yn cymryd rhan yn yr arbrawf cyn gynted â phosibl.

Statws stoc cregyn bylchog

Ar hyn o bryd rydym yn gorffen dadansoddi fideos a lluniau arolwg Gorffennaf-Awst 2013 i sicrhau fod yr adroddiad ar astudiaeth statws stoc cregyn bylchog ar gael cyn y Nadolig.

Cynhelir astudiaeth stoc cregyn bylchog Bae Tremadog a ddisgrifiwyd yng nghylchlythyr mis Hydref yn ystod gwanwyn neu haf 2014.

Cynllun y bag coch

Sefydlwyd y cynllun hwn gan ganolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS) i asesu stoc cregyn bylchog. Mae'n ddull syml rydym yn ei ddefnyddio i gasglu gwybodaeth am statws stoc cregyn bylchog yn nyfroedd Cymru. Mae sampl gyda lleiafswm o 120 o gregyn

bylchog uwchben y maint glanio lleiaf (MLS) yn cael eu cadw mewn bag coch y byddwn yn ei roi i bysgotwyr. Mae angen llenwi dalen sampl gyda manylion am y nifer o gregyn bylchog sy'n rhy fach sy'n cael eu yn eu taflu. Mae'r bag wedyn yn cael ei gyflwyno fel arfer i'r prosesydd. Bydd y cregyn gwastad wedi eu prosesu yn cael eu dychwelyd i'r bag a'u casglu gan Brifysgol Bangor i benderfynu eu hoedran.

Dychwelwyd y bag coch cyntaf i ni. Diolch i'r pysgotwr oedd yn rhan o hyn ac i'r prosesydd AM Seafoods. **Er mwyn bod yn rhan o'r cynllun cysylltwch, os gwelwch yn dda. Cyswllt:**

g.lambert@bangor.ac.uk

Y gragen foch fwyaf



Canlyniadau tagio'r gragen foch fwyaf:

Mae'n hymchwil hyd yn hyn yn awgrymu fod sawl morffoleg ffisegol yn bodoli (h.y. lleoliadau ble mae rhai o'r cregyn moch mwyaf â chragen drwchus ac yn fach, a rhai â chragen denau ac yn fawr). Rydym yn profi'r ddamcaniaeth hon drwy fesur y cregyn o'n samplau a'u cymharu â'r data biolegol rydym wedi eu casglu'n barod.

Os ydych yn bysgotwr cregyn moch mwyaf ac yn dymuno bod yn rhan o astudiaeth tagio'r gragen foch fwyaf / astudiaeth ail-ddal yr haf nesaf **anfonwch e-bost i Jodie:** j.haig@bangor.ac.uk




Pysgod adeiniog

Draenogiaid môr

Samplwyd mwy na 1300 o bysgod hyd yn hyn. Rydym wedi dechrau dadansoddi'r cen i wybod oed y pysgod ac ar gyfer dadansoddiad isotop sefydlog. Bydd dadansoddiad isotop sefydlog yn rhoi mewnwelediad i ni ar gysylltedd mudo a phatrymau mudo'r rhywogaeth.

Rydym yn parhau'n gyson i gasglu data gan bysgotwyr a'r diwydiannau prosesu. Mae'r tymor atgennedlu yn dechrau ac mae angen i ni gynyddu nifer y pysgod a gasglwyd gyda gonadau.

Cysylltwch, os gwelwch yn dda, â Giulia Cambiè (g.cambie@bangor.ac.uk) i ddarparu samplau draenogiaid y môr (cen a gonadau).



Chwith: Gemma Godwin a Jordan McDermott-Buxton yn gweithio ar gen draenogiaid y môr. De: Cen draenogiaid y môr wedi'i gofnodi gan ein myfyriwr, Tom Overy.



**Y Gronfa Pysgodfeydd Ewropeaidd:
Buddsoddi mewn Pysgodfeydd Cynaliadwy
European Fisheries Fund:
Investing in Sustainable Fisheries**



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**